



**Pennaeth Addysg**  
**Head of Education**  
**Garem Jackson**

Gofynnwch am/Ask for:

**Garem Jackson**

☎ (01286) 679467

Ein Cyf / Our Ref:

**2017 11 21 Llyth Gweinidog Add Llyw / CYSAG**

📄 (01286) 677347

Eich Cyf / Your Ref:

✉ [garemjackson@gwynedd.gov.uk](mailto:garemjackson@gwynedd.gov.uk)

21 Tachwedd 2017

Ms Kirsty Williams AC  
Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg  
Llywodraeth Cymru  
5ed Llawr  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Annwyl Ms Williams

**ADNODDAU CYFRWNG CYMRAEG AR GYFER**  
**TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL NEWYDD**

Yn dilyn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Gwynedd (CYSAG) gofynnwyd i mi ysgrifennu atoch ynglŷn â'r diffyg adnoddau Cymraeg ar gyfer y cwrs TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd.

Adroddodd athrawes ysgol uwchradd sydd yn aelod o CYSAG ei bod, gyda chymorth rhai athrawon eraill, wedi gorfod cyfieithu'r llyfryn gwaith isod i'r Gymraeg:

**WJEC – GCSE – Religious Studies**  
**Unit 1 Religion and Philosophical Themes**

Nododd yr athrawes ei bod yn teimlo bod hyn yn gwbl annerbyniol. Mynegodd y Pwyllgor ei anfodlonrwydd gyda'r sefyllfa hon, yn arbennig gan i CYSAG fod wedi llythyru gyda CBAC ar 23/06/17 (llythyr atodol) i fynegi ein pryder am y diffyg adnoddau Cymraeg ac yn gofyn am gadarnhad y byddai'r ysgolion yn derbyn adnoddau mewn da bryd ar gyfer cyflwyno'r cwrs. Ni wireddwyd y cais ac ni chafwyd ymateb i'r llythyr hwnnw.

Dwi'n siŵr y byddwch yn cytuno bod sefyllfa o'r fath yn gwbl annerbyniol ac wedi ychwanegu llwyth gwaith aruthrol i'r athrawon.

Gwn o'ch datganiadau cyhoeddus eich bod yn gefnogol iawn i'r Gymraeg ac rydym yn gwerthfawrogi hynny. Byddwn yn ddiolchgar iawn ichi am eich cymorth i bwysu ar CBAC i ddarparu gweddill y deunyddiau ar gyfer y cwrs newydd TGAU Astudiaethau Crefyddol mor fuan â phosib ac i dderbyn cadarnhad na fydd sefyllfa o'r fath yn codi eto.

Yn gywir

*Paul Rowlinson*

*Garem Jackson*

**Cyng. Paul Rowlinson**  
**Cadeirydd CYSAG Gwynedd**

**Garem Jackson**  
**Pennaeth Addysg**

c.c. Mr Carwyn Jones, Prif Weinidog  
Ms Mary Hughes, Comisiynydd y Gymraeg

Swyddfa'r Cyngor  
Caernarfon  
Gwynedd LL55 1SH  
01766 771000  
[www.gwynedd.gov.uk](http://www.gwynedd.gov.uk)

Parch • Gwasanaethu • Positif • Gweithio fel tîm • Gwerth am arian  
Respect • Serving • Positive • Working as a team • Value for money